**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rhodri Morgan AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister for Wales**

Ein cyf/Our ref MB/FM/0432/08

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Angela Burns AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Gorffennaf 2008

Ysgrifennaf yn dilyn yr ymateb a roddais i chi yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 10 Mehefin ynghylch y ffaith bod traeth Amroth wedi colli ei Faner Las ar gyfer 2008.

Nid oedd ansawdd y dŵr ar draeth Amroth yn bodloni'r safon ofynnol ar adeg yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2007, a dyma'r prif reswm na wnaeth lwyddo i gael statws Baner Las yn 2008. Roedd yn un o 6 thraeth yng Nghymru a fethodd brofion ar ansawdd y dŵr. Roedd hyn yn rhannol oherwydd mai'r haf llynedd oedd y gwlypaf ers dechrau cadw cofnodion. Mae golau'r haul yn ddiheintydd naturiol. Ond mae'r glaw trwm a geir yng Nghymru yn golygu ein bod mewn mwy o berygl o gael problemau yn sgil llygredd stormydd a dŵr ffo'n llifo oddi ar dir ffermio, sy'n cario pethau fel gwrtaith a gwastraff anifeiliaid i'r môr. Deallaf fod Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, wedi trafod y mater hwn ag Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig,.

Os yw traeth yn methu â bodloni'r safonau gofynnol oherwydd ansawdd y dŵr , mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn mynd ati i ymchwilio i'r rhesymau pam er mwyn sicrhau bod ansawdd y dŵr yn cael ei wella i'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer traethau'r Faner Las yn y dyfodol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datgan bron hanner ffordd drwy eu rhaglen samplo bod holl ganlyniadau'r samplau hyd yn hyn wedi bodloni'r safon eleni. Felly, os yw'r canlyniadau'n parhau i fod yn gyson, gallai Amroth adennill ei Faner Las ar gyfer tymor 2009.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
rhodri.morgan@wales.gsi.gov.uk